# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(27)

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 15 cwestiwn.  Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**14.28**
**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**14.42**
**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Llythrennedd**

**15.13**
**4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

**15.43**
**5. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**NDM4841 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2010/11, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2011.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu camau i warchod pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed neu sy'n methu ag ymdopi; ac i ddiogelu eu hurddas.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r heriau a nodwyd yn "Galwadau'r Comisiynydd".

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaeth eiriolaeth cynhwysfawr a chyson ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru

a) werthuso cynlluniau lleol, wedi'u hanelu at gynorthwyo pobl hŷn, sy'n:

i) eu hannog i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac yn eu galluogi i fyw'n ddiogel mewn cymuned gefnogol, a thrwy hynny osgoi gorfod aros yn ddiangen mewn ysbyty; a

ii) hyrwyddo byw'n annibynnol.

b) ymgorffori'r arfer gorau mewn cynllun gweithredu Cymru gyfan ar gyfer iechyd ataliol.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM4841 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hyn ar gyfer 2010/11, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2011.

Yn annog Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu camau i warchod pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed neu sy'n methu ag ymdopi; ac i ddiogelu eu hurddas.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r heriau a nodwyd yn "Galwadau'r Comisiynydd".

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaeth eiriolaeth cynhwysfawr a chyson ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru

a) werthuso cynlluniau lleol, wedi’u hanelu at gynorthwyo pobl hŷn, sy’n:

i) eu hannog i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac yn eu galluogi i fyw’n ddiogel mewn cymuned gefnogol, a thrwy hynny osgoi gorfod aros yn ddiangen mewn ysbyty; a

ii) hyrwyddo byw'n annibynnol.

b) ymgorffori’r arfer gorau mewn cynllun gweithredu Cymru gyfan ar gyfer iechyd ataliol.

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**16.46**
**6. Dadl ar S4C**

**NDM4842 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cytundeb diweddar ynghylch y bartneriaeth newydd rhwng S4C a'r BBC;

2. Yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yr angen i gynnal adolygiad llawn o brosesau gweithredu a llywodraethu S4C ac atebolrwydd y sianel, ond gan ganiatáu amser i'r trefniadau diwygiedig yn S4C gael amser i weithio; a

3. Yn cytuno y dylai fod cysylltiadau cryfach rhwng S4C, darlledwyr eraill y gwasanaeth cyhoeddus a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.30**

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2011**